

Cynllun Deisebau

Mabwysiadwyd gan y cyngor - 24 Mai 2022 Adolygwyd ym mis Gorffennaf 2023

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar Brif Gyngor i lunio a chyhoeddi Cynllun Deisebau sy'n nodi sut y mae'r cyngor yn bwriadu ymdrin â deisebau ac ymateb iddynt (gan gynnwys Deisebau Electronig). Cyfeirir at Ddeisebau Electronig yn y cynllun hwn fel e-Ddeisebau. Mae'r Cynllun Deisebau hwn yn un elfen o'r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd ehangach.
- 1.2 Dogfennau yw deisebau (boed yn electronig neu'n ffisegol) sy'n cynnwys manylion materion sy'n bwysig i gymunedau a Dinas a Sir Abertawe yn ei chyfanrwydd, wedi'u llofnodi gan etholwyr lleol sy'n cefnogi'r cam gweithredu arfaethedig.
- 1.3 Cymeradwywyd y Cynllun Deisebau hwn gan y cyngor ar **24 Mai 2022** a chaiff ei adolygu gan y cyngor bob dwy flynedd, neu'n amlach yn ôl yr angen.
- 1.4 Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y Cynllun Deisebau hwn gallwch gysylltu â'r:
Tîm Gwasanaethau Democraidd, Cyngor Abertawe, Neuadd y Ddinas
SA1 4PE democratiaeth@abertawe.gov.uk / 01792 63 6923

2. Cyn cyflwyno Deiseb i'r cyngor

- 2.1 Cyn cyflwyno deiseb, anogir preswylwyr i:
 - a) Gysylltu â'r cyngor i weld a fyddai cais am wasanaeth cyffredin yn datrys y mater. www.abertawe.gov.uk neu <https://www.abertawe.gov.uk/adrodd>
 - b) Cysylltu â Chynghorydd(wyr) ward perthnasol i weld a allant helpu. www.abertawe.gov.uk/cynghorwyr

3. Prif Ddeisebydd

- 3.1 Mae angen enw a manylion cyswllt y person a ddechreuodd y ddeiseb (Prif Ddeisebydd) er mwyn caniatáu cyswllt rhwng y cyngor a'r Prif Ddeisebydd. Dim ond y Prif Ddeisebydd y cysylltir ag ef mewn perthynas â'r Ddeiseb. Ni fydd manylion cyswllt y Prif Ddeisebydd yn cael eu rhoi ar y wefan.
- 3.2 Os na chaiff Prif Ddeisebydd ei nodi, cysylltir â llofnodwyr y Ddeiseb i gytuno ar bwy ddylai weithredu fel y Prif Ddeisebydd.

4. Pwy all godi deiseb?

- 4.1 Rhaid i lofnodwyr y ddeiseb fyw, gweithio neu astudio yn ardal Cyngor Abertawe.
- 4.2 Gall pobl o bob oed lofnodi deisebau.

5. Cyflwyno deiseb bapur

5.1 Meini prawf cyflwyno deiseb bapur Rhaid i'r ddeiseb bapur gynnwys y canlynol:

- i) Datganiad clir a chryno o'r pryder. Rhaid nodi geiriad y ddeiseb yn llawn ar bob dalen (neu ar ochr dalen) lle gofynnir am lofnodion. Bydd y ddeiseb yn cael ei dychwelyd os yw'r geiriad yn aneglur.
- ii) Rhaid cynnwys yr hyn yr hoffai'r deisebydd i'r cyngor ei wneud mewn ymateb.
- iii) Rhaid cynnwys enw, cyfeiriad, côd post a llofnod y deisebydd.
- iv) Rhaid iddi ymwneud â rhywbeth y mae'r cyngor yn gyfrifol amdano neu y mae gan y cyngor rywfaint o ddylanwad uniongyrchol drosto. Os bydd y cyngor yn derbyn deiseb nad yw'n ymwneud â rhywbeth dan reolaeth neu ddylanwad uniongyrchol y cyngor, caiff ei dychwelyd i'r Prif Ddeisebydd gydag esboniad ynghylch pam na all y cyngor ymdrin â'r mater ymhellach.

Sylwer: mae "Ffurflen templed deisebau" ar gael yn <https://www.abertawe.gov.uk/Deisebau>

6. Cyflwyno e-Ddeiseb

- 6.1 Gellir cyflwyno e-Ddeisebau a grëwyd drwy wefannau ar wahân i wefan y cyngor ar yr amod eu bod yn bodloni meini prawf e-Ddeisebau'r cyngor.
- 6.2 Rhaid penderfynu ar y cyfnod y bydd e-Ddeiseb yn agored i e-lofnodwyr (tanysgrifiad) o'r cychwyn cyntaf. Ni chaniateir i unrhyw e-ddeiseb fod ar agor am 3 mis neu fwy.
- 6.3 Os ystyrir na ellir cyhoeddi eich e-Ddeiseb am unrhyw reswm, bydd y cyngor yn cysylltu â chi i egluro'r rheswm. Efallai y byddwch yn gallu newid ac ailgyflwyno eich deiseb. Os na fyddwch yn gwneud hyn o fewn 10 niwrnod gwaith, bydd crynodeb o'r e-Ddeiseb a'r rheswm pam nad yw wedi'i derbyn yn cael ei gyhoeddi o dan adran 'Deisebau a Wrthodwyd' y wefan.
- 6.4 Pan fydd e-Ddeiseb wedi cau i lofnodion, caiff ei chyflwyno'n awtomatig i'r Gwasanaethau Democrataidd. Bydd y Prif Ddeisebydd yn derbyn cydnabyddiaeth o fewn 10 niwrnod gwaith clir.

6.5 **Meini prawf e-Ddeisebau** Rhaid i e-Ddeiseb gynnwys y canlynol:

- i) Datganiad clir a chryno o'r pryder. Rhaid nodi geiriad y ddeiseb yn llawn ar bob dalen lle gofynnir am lofnodion. Bydd y ddeiseb yn cael ei dychwelyd os yw'r geiriad yn aneglur.
- ii) Rhaid cynnwys yr hyn yr hoffai'r deisebydd i'r cyngor ei wneud mewn ymateb.
- iii) Rhaid iddi gynnwys enw, cyfeiriad, côd post a chyfeiriad e-bost dilys y Deisebydd.
- v) Rhaid iddi ymwneud â rhywbeth y mae'r cyngor yn gyfrifol amdano neu y mae gan y cyngor rywfaint o ddylanwad uniongyrchol drosto. Os bydd y cyngor yn derbyn deiseb nad yw'n ymwneud â rhywbeth dan reolaeth neu ddylanwad uniongyrchol y cyngor, caiff ei dychwelyd i'r Prif Ddeisebydd gydag esboniad ynghylch pam na all y cyngor ymdrin â'r mater ymhellach.

7. **Gweithdrefn deisebau (deisebau papur ac e-Ddeisebau)**

- 7.1 Caiff deisebau eu cydnabod o fewn 10 niwrnod gwaith clir.
- 7.2 Bydd deisebau'n cael eu gwirio i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â meini prawf deisebau'r cyngor (Papur neu e-Ddeiseb, yn y drefn honno).
- 7.3 Cyhoeddir deisebau yn ddwyieithog ar-lein. Gall hyn gymryd sawl diwrnod oherwydd efallai y bydd angen cyfieithu'r Ddeiseb i'r Gymraeg neu'r Saesneg.

8. **Pa ddeisebau na fydd y cyngor yn eu derbyn?**

- 8.1 Rhaid i ddeisebau fod mewn perthynas â rhywbeth sy'n dod dan gylch gwaith y cyngor. Bydd gan y Swyddog Monitro ddisgresiwn o ran a yw deiseb yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y Cynllun Deisebau. Ni chymerir unrhyw gamau pellach mewn ymateb i ddeiseb sy'n methu â bodloni'r meini prawf.
- 8.2 Ni fydd y cyngor yn derbyn deiseb ar gyfer yr amgylchiadau canlynol:
 - a) Os yw'n dyblygu deiseb gydamserol arall. Yn yr achos hwn, bydd llofnodion yn cael eu hychwanegu at y ddeiseb gyntaf o'r fath i'w derbyn gan y cyngor.
 - b) Os yw'n ailadrodd deiseb a dderbyniwyd o fewn y chwe mis blaenorol, p'un a yw'r Prif Ddeisebydd yr un fath ym mhob achos ai peidio.
 - c) Os yw'r cynnwys yn bersonol, yn anghwrtais, yn ddifenyddol neu'n flinderus ei natur ym marn y Prif Swyddog Gweithredol neu Swyddog Monitro'r cyngor.
 - ch) Os daw'n amlwg bod enw, cyfeiriad neu lofnod unrhyw etholwr lleol wedi'u hychwanegu at y ddeiseb heb ei ganiatâd penodol.
 - d) Os nad yw'n ymwneud â mater y mae gan y cyngor gyfrifoldeb drosto neu nad yw'n effeithio ar ardal weinyddol na dinasyddion y cyngor.

- dd) Os byddai angen datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig mewn ymateb.
- e) Os yw'n ymwneud ag amgylchiadau personol neu ymddygiad unrhyw swyddog ac Aelod neu amodau gwasanaeth gweithwyr.
- f) Os yw'n ymwneud ag unigolyn, grŵp neu fusnes neu amgylchiadau'r Deisebydd ei hun.
- ff) Os yw y tu hwnt i awdurdod y cyngor neu'n anghyfreithlon iddo ei ystyried.
- g) Os yw'n ymwneud â mater sy'n destun achos cyfreithiol neu orfodi neu apêl i lys neu dribiwnlys neu i un o Weinidogion y Llywodraeth neu'r Cynulliad Cenedlaethol neu ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- ng) Os yw'n ymwneud â gweithgareddau ac amcanion plaid neu sefydliad gwleidyddol.
- h) Os byddai angen gwario swm anghymesur o amser, arian neu ymdrech er mwyn paratoi'r ateb.
- i) Os yw'r ddeiseb yn ceisio gwrthdroi penderfyniad a wnaed yn gyfreithlon, fel penderfyniad a wnaed gan y cyngor, y Cabinet, Pwyllgor etc.
- l) Gellir ymdrin â'r mater yn fwy priodol fel rhan o ymateb i ymgynghoriad ac os felly caiff ei gyfeirio at gorff priodol y cyngor a'i gynnwys fel rhan o'r dogfennau ymgynghori.

8.3 Os yw'r cyngor yn gwrthod eich deiseb neu os ydych yn teimlo nad yw'r cyngor wedi ymdrin â'ch deiseb yn iawn, cysylltwch â Thîm y Gwasanaethau Democrataidd (GD) democratiaeth@abertawe.gov.uk

Rhowch esboniad byr o'ch pryder a'r penderfyniad yr ydych yn ei geisio o fewn 10 niwrnod gwaith clir i'r penderfyniad. Bydd Tîm y GD yn anfon eich pryder ymlaen at yr Aelod Llywyddol a fydd yn ei ystyried mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151. Bydd eu penderfyniad hwy yn derfynol.

9. Beth fydd y cyngor yn ei wneud pan fydd yn derbyn fy neiseb?

Anfonir cydnabyddiaeth at y Prif Ddeisebydd o fewn **10** niwrnod gwaith clir i dderbyn y ddeiseb. Bydd yn rhoi gwybod i chi beth y mae'r cyngor yn bwriadu ei wneud gyda'r ddeiseb a phryd y gallwch ddisgwyl clywed gan y cyngor eto. Bydd copi o'ch deiseb hefyd yn cael ei anfon at y Pennaeth Gwasanaeth a'r Aelod Cabinet perthnasol www.abertawe.gov.uk/Cabinet

9.2 Os yw deiseb yn ymwneud â mater lleol penodol sy'n effeithio ar ward(iau) penodol, yna bydd y Tîm Gwasanaethau Democrataidd yn hysbysu'r Cyngorydd(wyr) priodol.

9.3 Bydd y ddeiseb yn cael ei chyhoeddi ar Gofrestr Deisebau'r cyngor ar wefan y cyngor. www.abertawe.gov.uk/deisebau

9.4 Os yw'r cyngor o'r farn y gall fodloni'r hyn y mae'r ddeiseb yn gofyn amdano, gall y gydnabyddiaeth gadarnhau pa gamau sydd wedi'u cymryd ar y cais a bydd y ddeiseb yn cael ei chau.

- 9.5 Os bydd unrhyw gam arall yn cael ei gynnig neu ei fwriadu, bydd y gydnabyddiaeth yn esbonio hyn. Os oes gan y ddeiseb ddigon o lofnodwyr i sbarduno dadl mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Deisebau, yna bydd y gydnabyddiaeth yn cadarnhau hyn ac yn rhoi cyngor ynghylch pryd a ble y cynhelir y cyfarfod. Os oes angen ymchwilio'n fanylach i'r ddeiseb, cewch wybod am gamau nesaf y cyngor.
- 9.6 Mae'r cyngor yn cadw'r hawl i wirio llofnodwyr yn ôl y gofyn. Dylai deisebwyr sicrhau bod cyfeiriad a chôd post dilys yn cael eu cynnwys ar gyfer pob deisebydd sy'n darparu cyfeiriad cartref (os yw'n byw yn ardal Cyngor Abertawe) neu gyfeiriad gwaith (os yw'n gweithio neu'n rhedeg busnes yn ardal Cyngor Abertawe). Bydd y manylion hyn yn cael eu hystyried wrth nodi a oes digon o lofnodwyr gan bobl sy'n byw neu'n gweithio yn ardal Cyngor Abertawe i sbarduno dadl.
- 9.7 Ni fydd unrhyw ddeiseb sy'n dyblygu neu'n agos at ddyblygu deiseb arall y mae'r cyngor eisoes wedi'i derbyn yn cael ei hystyried o fewn cyfnod o 6 mis, er y bydd Swyddogion yn arfer eu disgrisiwn mewn achosion unigol. Cynghorir bod manylion deisebau blaenorol yn cael eu gwirio ar y wefan ar ddechrau eich deiseb. www.abertawe.gov.uk/deisebau
- 9.8 Er mwyn sicrhau bod pobl yn gwybod yr hyn y mae'r cyngor yn ei wneud mewn ymateb i'r deisebau a dderbynnir, bydd manylion yr holl ddeisebau a gyflwynir, gan gynnwys y rheini sy'n aros i'w gweithredu, yn cael eu cyhoeddi ar wefan y cyngor.
- 9.9 Yn y cyfnod cyn Etholiad neu Refferendwm, efallai y bydd angen i'r cyngor drin unrhyw ddeisebau a dderbynnir yn wahanol yn amodol ar y canllawiau Cyhoeddusrwydd Cyn yr Etholiad. O dan amgylchiadau o'r fath, caiff y rhesymau dros hyn eu hesbonio i'r Prif Ddeisebydd.
- 9.10 Gall ymateb y cyngor hefyd ddibynnu ar nifer y bobl sydd wedi llofnodi'r ddeiseb. Mae'r tabl yn nodi'r trothwyon:

Nifer y llofnodion	Ymateb
1-499	Ymateb gan y Cyfarwyddwr / Pennaeth Gwasanaeth perthnasol
500-999	Ymateb gan yr Aelod Cabinet perthnasol
1,000+	Wedi'i gyfeirio i'w drafod mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Deisebau

Sylwer: Bydd gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau disgrisiwn llwyr i hepgor y targed trothwy ar gyfer llofnodion os bydd llai o bobl yn cael eu heffeithio gan y cais am Ddeiseb.

10. Deiseb yn cael ei thrafod gan y Pwyllgor Deisebau

10. Os bydd deiseb yn cynnwys 1,000+ o lofnodion, caiff ei thrafod gan y Pwyllgor Deisebau. Trefnir cyfarfod y Pwyllgor Deisebau cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

10.2 Bydd y Prif Ddeisebydd yn cael **3** munud i annerch y Pwyllgor Deisebau ar bwnc y ddeiseb. Bydd y Cynghorwyr Ward Lleol hefyd yn cael 3 munud; fodd bynnag, os bydd yn Ward Aml-aelod, y cyfanswm a ganiateir fydd 5 munud rhyngddynt i gyd. Yna bydd deiliad portffolio perthnasol y Cabinet yn cael **3** munud ar gyfer hawl i ymateb ac yna bydd y ddeiseb yn cael ei thrafod gan y Pwyllgor Deisebau.

Mae gan y Prif Ddeisebydd a'r swyddogion perthnasol hawl pellach i ateb, am ddim mwy na **3** munud.

Mae gan ddeiliad portffolio perthnasol y Cabinet hawl pellach i ateb, am ddim mwy na **3** munud, ar ddiwedd y ddadl ar y mater.

10.3 Bydd y Pwyllgor Deisebau yn penderfynu sut i ymateb i'r ddeiseb yn y cyfarfod hwn. Gallant benderfynu cymryd y camau y mae'r ddeiseb yn gofyn amdanynt, penderfynu peidio â chymryd y camau y gofynnwyd amdanynt am resymau a gyflwynwyd yn y ddadl, neu i gomisiynu ymchwiliad pellach i'r mater, er enghraifft gan Bwyllgor/Swyddog perthnasol.

10.4 Lle bo'r mater yn un y mae'n ofynnol i weithrediaeth y cyngor, sef y Cabinet, wneud y penderfyniad terfynol arno, bydd y Pwyllgor Deisebau yn penderfynu a ddylid gwneud argymhellion i lywio'r penderfyniad hwnnw.

10.5 Bydd y Prif Ddeisebydd yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig o'r penderfyniad cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud. Bydd y cadarnhad hwn hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y cyngor.

11. Canlyniadau posib deiseb

11.1 Bydd yr ymateb i ddeiseb yn dibynnu ar yr hyn y mae deiseb yn gofyn amdano a faint o bobl sydd wedi'i llofnodi, ond gall gynnwys un neu fwy o'r canlynol:

- Cynyddu cyhoeddusrwydd ar gyfer mater, ac ymwybyddiaeth ohono.
- Cyflwyno deiseb i gyfarfod o'r Cabinet gan roi sylw i swyddogaethau gweithrediaeth.
- Cymryd y camau y gofynnir amdanynt yn y ddeiseb (naill ai o dan bwerau dirprwyedig y Swyddog neu fel arall fel y bo'n briodol yn yr holl amgylchiadau).
- Comisiynu ymchwil.
- Ysgrifennu at y Prif Ddeisebydd yn nodi barn y cyngor ar y cais yn y ddeiseb.
- Cyfeirio'r ddeiseb at Bwyllgor y Rhaglen Graffu.
- Cynnal cyfarfod gyda'r Prif Ddeisebydd.
- Anfon eich deiseb ymlaen i gorff arall neu bwysu ar gorff arall os yw'n rhywbeth nad oes gan y cyngor unrhyw reolaeth uniongyrchol drosto.
- Mewn materion yr ymdrinnir â hwy gan awdurdod dirprwyedig, bydd y Swyddog cyfrifol yn ymateb i'r ddeiseb.
- Rhyw ymateb priodol arall.

12. Diogelu Data a GDPR

- 12.1 Cyn pen 3 mis i ymateb ffurfiol y cyngor i ddeiseb, bydd deiseb bapur yn cael ei dinistrio'n ddiogel a bydd pob e-lofnod ar ddeiseb ar-lein yn cael ei ddileu.

13. Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion

- 13.1 Ni chaniateir deisebau sy'n geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, Sylwadau, Canmoliaeth na Chwynion. Defnyddiwch y dolenni canlynol:

Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

<https://www.abertawe.gov.uk/adolygucaisrhyddidgwybodaeth>

Cyflwyno sylwadau, canmoliaethau a chwynion

<https://www.abertawe.gov.uk/cwynion>

Cyngor Abertawe - Ffurflen Templed Deisebau

Nodiadau Arweiniol:

1. Defnyddiwch y templed awgrymedig hwn.
2. Rhaid i dudalennau ychwanegol hefyd gynnwys pwnc y ddeiseb ar frig pob tudalen.
3. Rhaid i'r Prif Ddeisebydd fyw, gweithio neu fod yn berchen ar fusnes yn ardal Cyngor Abertawe.
4. Os hoffech lofnodi'r ddeiseb hon, nodwch eich cyfeiriad yng Nghyngor Abertawe os ydych yn byw, yn gweithio neu'n berchen ar fusnes yn ardal Cyngor Abertawe, gan y bydd hyn yn cyfrif tuag at unrhyw drothwy ar gyfer trafodaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Deisebau.
5. Bydd llofnodwyr o'r tu allan i ardal Cyngor Abertawe yn cael eu hystyried mewn perthynas â'r mater sy'n cael ei godi, ond ni fyddant yn cyfrif tuag at y niferoedd sy'n ofynnol ar gyfer dadleuon ffurfiol o dan y Cynllun Deisebau.
6. Cyfeiriwch at y Cynllun Deisebau yn www.abertawe.gov.uk/deisebau am ragor o wybodaeth.

Manylion Cyswllt y Prif Ddeisebydd

Enw Llawn	
Cyfeiriad	
Rhif ffôn cartref	
Rhif ffôn symudol	
Cyfeiriad e-bost	
Ydych chi'n byw/yn gweithio/yn berchen ar fusnes yn ardal Cyngor Abertawe? Nodwch bob un sy'n berthnasol	
Llofnod	

Deiseb (Llenwch bob rhan)

Teitl y ddeiseb:	
Diben y ddeiseb: i) Amlinellwch ddiben y ddeiseb yn glir. ii) Yr hyn rydych chi'n gobeithio ei gyflawni. Sylwer: Rhaid dangos diben y ddeiseb ar bob tudalen o'r ddeiseb.	
Crynodeb o'r camau a gymerwyd eisoes (os yw'n berthnasol):	

Rhif	Enw	Cyfeiriad	Côd post	Llofnod	Cyfeiriad e-bost (Os yn bosib)

Dychweler at: Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Abertawe, Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 4PE